Adran yr Economi a'r Seilwaith
Department for Economy and Infrastructure

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

c/o committeebusiness@wales.gsi.gov.uk

30 Medi 2016

**BUDDSODDIAD LLYWODRAETH CYMRU MEWN GWASANETHAU TRÊN A SEILWAITH Y RHEILFFYRDD**

Annwyl Gadeirydd,

Gweler yn amgaeedig ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar fuddsoddiadau Llywodraeth Cymru mewn gwasanaethau trên a seilwaith y rheilffyrdd.

Gallaf gadarnhau ein bod wedi derbyn neu rannol dderbyn yr holl argymhellion ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo i'w rhoi ar waith.

Yn gywir,

**James Price**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Canolfan QED • QED Centre
Y Brif Rodfa • Main Avenue
Trefforest • Treforest
Pontypridd, CF37 5YR

Ffôn • Tel 02920 826646
James.Price@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

**Argymhelliad 1**

Argymhellwn, os bydd Llywodraeth Cymru am i Network Rail gyflawni prosiect y mae'n ei ariannu, y dylai geisio datblygu contractau pwrpasol. Dylai contractau pwrpasol ddiogelu buddiant Llywodraeth Cymru yn well drwy gydnabod y ffaith y gall roi mwy o sicrwydd ynghylch ariannu contractau yn ogystal ag adlewyrchu amgylchiadau a risgiau prosiectau unigol.

Derbyn. Rydyn ni'n derbyn nad yw'r contractau safonol yn adlewyrchu'n ddigonol ein rôl fel ariannwr ac y gellid eu gwella. Byddwn yn gobeithio datblygu ystod o gontractau model pwrpasol ar gyfer eu defnyddio gyda phrosiectau seilwaith rheilffyrdd yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i weithio i geisio sicrhau gwelliannau ar y mater hwn gyda'r rheoleiddiwr.

Fodd bynnag, er bod Llywodraeth Cymru'n ceisio datblygu'r contractau pwrpasol a argymhellir, rydyn ni hefyd yn cydnabod gan nad yw'r pwerau am seilwaith y rheilffyrdd wedi'u datganoli, ni fydd rhwymedigaeth ar Network Rail na'r rheoleiddiwr i wneud yn yr un modd. Ni allwn roi sicrwydd felly y bydd dilyn y trywydd hwn yn arwain at y canlyniadau a ddymunir.

**Argymhelliad 2**
Argymhellwn, wrth i'r broses gaffael fynd rhagddi, y dylai Llywodraeth Cymru adolygu effeithiolrwydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a sicrhau bod unrhyw wersi yn cael eu cymhwyso at ei chydberthynas barhaus â Network Rail.

Derbyn. Gyda chytundeb Network Rail, byddwn yn cynnwys adolygiad o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn agenda cyfarfodydd cyd-fwrdd Llywodraeth Cymru a Network Rail sy'n cael eu cynnal bob 4 wythnos.

**Argymhelliad 3**
Yn gyson â'r argymhellion yn yr Adroddiad ar Brosiectau Trafnidiaeth Mawr, a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Ionawr 2011, argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

A cofnodi gwybodaeth a fydd yn olrhain perfformiad prosiectau cam 2 y Metro ar gamau cyflawni allweddol;

Derbyn. Rydym wedi tynnu sylw Trafnidiaeth Cymru at yr adroddiad hwn ac wedi gofyn iddyn nhw gynnig sut y gellid cyflawni hyn. Rydym yn disgwyl cynnig ar gyfer mynd i'r afael â'r gwaith hwn yng nghynllun busnes nesaf Trafnidiaeth Cymru.

B. cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen i hwyluso meincnodi perfformiad prosiect yn erbyn prosiectau mewn rhannau eraill o'r DU;

Derbyn. Mae'r rheoleiddiwr yn monitro perfformiad Network Rail. Yn yr adroddiad mwyaf diweddar (mis Gorffennaf eleni), ceir adran benodol am reilffyrdd yng Nghymru. Mae'n ymdrin â phob agwedd ar berfformiad Network Rail yng Nghymru, gan gynnwys dibynadwyedd wrth gyflenwi prosiectau a seilwaith ac yn cymharu'r perfformiad Network Rail â'r meincnodau cenedlaethol ar rai matricsau. Mae hyn yn beth cymharol newydd i'r ORR a chawsom ymrwymiad ganddynt yn yr adroddiad diweddaraf y byddent yn parhau i ddatblygu hyn. Rydym eisoes wedi darparu gwybodaeth i'r math hwn o berwyl i'r ORR am gostau darparu gorsaf Pye Corner. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r rheoleiddiwr i helpu ac i gael gwybodaeth berthnasol ar gyfer meincnodi.

C. cofnodi'r holl newidiadau yng nghostau'r prosiect ar bob cam o gylch oes y prosiect;

Derbyn. Mae prosesau rheoli ynghlwm wrth bob un o'n prosiectau seilwaith yn ddiwahân i gofnodi penderfyniadau a digwyddiadau sy'n effeithio ar gost prosiect. Rydyn ni'n gweithio gyda'n cadwyn gyflenwi i safoni fformat y prosesau hyn.

Ch. cofnodi a rhannu'r rhesymau dros unrhyw gynnydd mewn costau ac oedi er mwyn llywio prosiectau trafnidiaeth eraill Llywodraeth Cymru.

Derbyn. Rydyn ni wedi newid strwythur yr Adran Drafnidiaeth fel mai'r un adran sy'n gyfrifol am brosiectau seilwaith Llywodraeth Cymru ar y rhwydwaith cefnffyrdd a'r rheilffyrdd. Bydd hynny'n fodd i rannu gwybodaeth yn well ar draws prosiectau. Byddwn yn adolygu'n system ar gyfer rhannu gwybodaeth, fel y gwersi a ddysgwyd, ac yn ei chryfhau os bydd angen.

**Argymhelliad 4**

Argymhellwn y canlynol:

A Dylai Pwyllgor Archwilio a Risg perthnasol Llywodraeth Cymru graffu ar drefniadau llywodraethu'r Cwmni Trafnidiaeth a'r cynnydd y mae'n ei wneud o ran caffael contract integredig Cymru a'r Gororau a Metro a'r gwaith cysylltiedig o ddatblygu'r dull o reoli a chaffael cerbydau er mwyn ei alluogi i gydymffurfio â'r gofyniad i sicrhau bod pob trên yn hygyrch i bobl sy'n cael trafferth symud o gwmpas erbyn 2020. Bydd hyn yn cynnwys y Pwyllgor Archwilio a Risg yn sicrhau ei hun bod Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael ag argymhellion adolygiad Gateway, a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2016, yn amserol.

Derbyn yr egwyddor. O gofio rôl cynghori'r Pwyllgor Archwilio a Risg o fewn Llywodraeth Cymru, bydd y Prif Swyddog Cyfrifyddu yn tynnu sylw Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol at yr argymhelliad. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi dechrau ar raglen waith i graffu ar Trafnidiaeth Cymru a'i drefniadau llywodraethu.

B. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei threfniadau rheoli prosiect a risg ar gyfer y broses gaffael wedi rhoi sylw llawn i wersi perthnasol ac argymhellion o adroddiadau diweddar y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ynglŷn â rhaglenni masnachfreinio rheilffyrdd a seilwaith rheilffyrdd, ac adroddiadau cysylltiedig gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd y DU.

Derbyn. Rydym wedi ysgrifennu at Trafnidiaeth Cymru er mwyn iddynt ymgorffori'r gwersi a'r argymhellion hyn yn eu gwaith wrth ddatblygu a chynnal proses gaffael masnachfraint Cymru a'r Gororau a Cham 2 y Metro. Mae Trafnidiaeth Cymru wrthi'n cau pen mwdwl un o'i brif ddogfennau caffael – yr "Invitation to Submit Outline Solutions". Unwaith y daw'r gwaith hwn i fwcwl, byddwn yn ysgrifennu atoch eto, yn y chwe wythnos nesaf, i ddangos sut mae'r gwersi a'r argymhellion hyn wedi'u hymgorffori yn y broses gaffael.

C. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd weithio gyda swyddogion yr Adran Drafnidiaeth i weithredu'r gwersi o brosesau caffael masnachfraint llwyddiannus a'r rhai a fu'n fwy heriol.

Derbyn. Mae Trafnidiaeth Cymru mewn cysylltiad rheolaidd â swyddogion yn yr Adran Drafnidiaeth. Mae swyddogion yn yr Adran Drafnidiaeth wedi adolygu'r dogfennau sy'n ymwneud â'r broses gaffael ac wedi rhoi adborth i Trafnidiaeth Cymru. Yn ogystal, yn aelodau o dîm Trafnidiaeth Cymru, y mae arbenigwyr cyfreithiol, ariannol a thechnegol sydd â phrofiad llwyddiannus o gaffael masnachfreintiau rheilffyrdd diweddar ar ran yr Adran Drafnidiaeth.

Ch. Ochr yn ochr â'r broses gaffael, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu system sy'n ei galluogi i ddangos y gwerth am arian y mae'r elfen masnachfraint o'r contract newydd yn ei gynnig, o'i chymharu â'r fasnachfraint bresennol a masnachfreintiau eraill.

Derbyn yn rhannol. Mae natur unigryw pob masnachfraint rheilffyrdd yn golygu nad ar chwarae bach y mae cael hyd i fetrig a fyddai'n cynnig cymhariaeth deg ac yn ddangosydd o werth am arian. Rydym yn ymwybodol hefyd bod y farchnad wedi newid yn fawr ers dyfarnu'r fasnachfraint bresennol yn 2003. Mae'r diwydiant rheilffyrdd wedi newid hefyd yn sylfaenol ers hynny, o ran agwedd a thechnoleg er enghraifft.

Yn ein barn ni, y ffordd orau o gael gwerth am arian yw trwy gynnal cystadleuaeth deg ac agored gan ddefnyddio tîm sydd â sgiliau a phrofiad. Mae'n bwysig hefyd

ein bod yn dysgu o'r arferion gorau diweddaraf ac o'r argymhellion.  Rydym hefyd yn gweithio'n glos â'r Adran Drafnidiaeth ac rydym wedi efelychu strwythurau'u timau ar gyfer masnachfreinio.

Rydym yn derbyn felly y dylem ddangos bod y broses gaffael yn rhoi gwerth am arian ond yn ein barn ni, y ffordd orau o wneud hynny yw trwy ganolbwyntio ar ein proses ein hunain, yn hytrach na gwneud cymariaethau artiffisial â naill ai masnachfreintiau yn y gorffennol neu â masnachfreintiau eraill.

**Argymhelliad 5**

Argymhellwn y dylai gwaith cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer y fasnachfraint ystyried yr argymhellion a wnaed gan ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i Ddyfodol Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a gynhaliwyd yn 2013.

Derbyn. Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion y Pwyllgor Menter a Busnes a wnaed yn 2013.  Rydym wedi rhoi'r adroddiad a'n hymatebion i Trafnidiaeth Cymru eu hystyried wrth ddatblygu cynigion ar gyfer y fasnachfraint nesaf.  Fel y dywedwyd uchod, mae Trafnidiaeth Cymru wrthi'n cau pen mwdwl un o'i brif ddogfennau caffael – yr "Invitation to Submit Outline Solutions".  Unwaith y daw'r gwaith hwn i fwcwl, byddwn yn ysgrifennu atoch eto, yn y chwe wythnos nesaf, i ddangos sut mae'r gwersi a'r argymhellion hyn wedi'u hymgorffori yn y broses gaffael.